# Cenn@d

IONAWR 14 2026 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 255


## Paratoi ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2026 “Un Corff, Un Ysbryd”

“Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw’r gobaith sy’n ymhlyg yn eich galwad.” (Effesiaid 4:4)


Ar gyfer eleni, mae’r gweddïau a’r myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol wedi’u paratoi gan ffyddloniaid Eglwys Apostolaidd Armenia ynghyd â’u brodyr a’u chwiorydd yn yr Eglwys Gatholig ac Eglwysi Efengylaidd Armenia. Mae’r adnoddau hyn yn seiliedig ar draddodiadau canrifoedd oed o weddi ac ymbil a arferir gan bobl Armenia, ynghyd ag emynau sydd wedi’u gwreiddio ym mynachlogydd ac eglwysi hynafol y wlad; mae rhai o’r emynau hynny’n deillio o’r bedwaredd ganrif. Mae’r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2026 yn estyn gwahoddiad i elwa ar y dreftadaeth Gristnogol gyffredin hon ac i ymchwilio’n ddyfnach i’n cymdeithas yng Nghrist, sy’n uno Cristnogion ledled y byd.

Mae undod yn ofyniad dwyfol sy’n rhan annatod o’n hunaniaeth Gristnogol. Mae’n cynrychioli hanfod galwad yr Eglwys – galwad i arddangos undod tangnefeddus ein bywyd yng Nghrist yng nghanol ein hamrywiaeth. Mae’r undod dwyfol hwn yn ganolog i’n cenhadaeth ac yn cael ei gynnal gan gariad dwfn Iesu Grist, sydd wedi gosod i ni alwedigaeth unedig.

Trwy gydol yr Ysgrythurau Sanctaidd, mae galwad Duw at undod yn atseinio o’r amseroedd cynharaf. Gan ddechrau gyda’r Hen Destament, mae erfyniad Abram ar Lot yn pwysleisio’r awydd dwyfol am dangnefedd a chytgord ymhlith y ffyddloniaid: ‘Peidied â bod cynnen rhyngom, na rhwng fy mugeiliaid i a’th rai di, oherwydd perthnasau ydym’ (Genesis 13:8). Mae’r Salmau yn dathlu prydferthwch undod ymhlith pobl Dduw, gan ddatgan, ‘Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl fyw’n gytûn.’ (Salm 133:1)

Yn y Testament Newydd, mae gweddi Iesu yn Ioan 17:21 yn galw ar gredinwyr i fod yn un fel y mae yntau a’r Tad yn un, gan ddangos bod ein hundod wedi’i wreiddio yn ein perthynas â Christ ac yn ein cenhadaeth ynghyd o rannu’r Newyddion Da. Mae gorchymyn sylfaenol Iesu ar i ni garu ein gilydd fel y mae yntau wedi ein caru ni (Ioan 13:34–5) yn cadarnhau mai’r cariad hwnnw yw hanfod ein hundod.

Mae epistolau Paul yn pwysleisio pwysigrwydd undod o fewn yr Eglwys, gan ein hannog i fyw yn deilwng o’n galwedigaeth gyda gostyngeiddrwydd, addfwynder, amynedd, a chariad




(Effesiaid 4:1–3). Mae Effesiaid 4:4 yn crynhoi dysgeidiaeth Paul ynghylch undod, gan bwysleisio yma hefyd fod dilynwyr Crist yn cynrychioli ‘un corff … ac un Ysbryd’, wedi’u huno mewn un gobaith.

Gan bwysleisio pwysigrwydd undod Cristnogol, mae Paul yn ychwanegu ‘un Ysbryd’, gan gyfeirio at yr Ysbryd Glân, sy’n cynnal y gymdeithas honno ac yn grymuso’r Eglwys i gyflawni ei chenhadaeth. Mewn byd â thraddodiadau a mynegiadau amrywiol, a rhanedig yn aml, o’r ffydd Gristnogol, mae Effesiaid 4:4 yn ein hatgoffa bod yr holl gredinwyr yn rhan o ‘un corff’ Crist. Nid yw’r undod hwn yn fater o unffurfiaeth ond yn hytrach o ymrwymiad cyffredin i wirioneddau craidd y ffydd Gristnogol. Mae’n dystiolaeth bwerus i rym trawsffurfiol yr Ysbryd Glân pan fo Cristnogion o gefndiroedd amrywiol yn dod ynghyd gyda nod a gweledigaeth gyffredin.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*


Craig, Blaenau – anogaeth ar ddechrau blwyddyn
Tudalen 3

Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt *Wake Up Dead Man!*
Tudalen 7

Taith bersonol at ffydd: o draddodiad teuluol i ymrwymiad personol
Tudalen 8

## *Paratoi ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2026*

### *“Un Corff, Un Ysbryd”*

*(parhad o dudalen 1)*

Trwy ei harferion a’i dysgeidiaeth, mae Eglwys Apostolaidd Armenia yn ein hysgogi i fyfyrio’n ddwys ynghylch hanfod undod o fewn Corff Crist yn gyffredinol. Wrth gyduno yng ngeiriau’r Credo, bydd y ffyddloniaid yn datgan eu bod yn credu mewn ‘un Eglwys lân Gatholig ac Apostolig’, a thrwy hynny’n proffesu bod yr undod hwnnw’n ganolog i’w bywyd ysbrydol. Wrth gofleidio’r undod hwn, a byw yn unol â hynny, mae Eglwys Apostolaidd Armenia nid yn unig yn anrhydeddu ei thraddodiadau sanctaidd ei hun ond hefyd yn cyfrannu o ddifrif tuag at undod ehangach Eglwys fyd-eang Crist.

Bydded i ni gofleidio’r alwad ddwyfol hon at undod, nid fel delfryd haniaethol ond fel mynegiant hanfodol o’n ffydd. Mewn byd lle mae Corff Crist wedi’i glwyfo gan raniadau o fewn traddodiadau a chyffesiadau, yn ogystal â rhaniadau rhwng y rhain, mae galwad yr Apostol am undod yn cael ei gyfeirio at bob un ohonom, nid yn unig fel cymunedau eglwysig ar wahân, ond hefyd fel unigolion o fewn ein cymunedau. Trwy fyw mewn undod, byddwn nid yn unig yn tystio i gariad a grym ein Harglwydd Iesu Grist ond hefyd yn ymgorffori hanfod yr hyn a ddysgodd. Wrth i ni gefnogi ein gilydd a dathlu ein doniau a’n galluoedd amrywiol, bydded i ni adlewyrchu calon Crist a hyrwyddo ei waith ar y ddaear.

Mae’r holl adnoddau addoli a thrafod ar gyfer yr wythnos ar gael yn rhad ac am ddim yn Gymraeg a Saesneg o wefan CTBI: https://ctbi.org.uk/resources/week-of-prayer-for-christian-unity-2026/



# Oedfa Ilston

Edrychwn ymlaen at Oedfa Ilston (ar-lein) eleni, pan fyddwn yn nodi 200 mlwyddiant bywyd a gwaith Joseph Harris (Gomer) ac yn edrych ar rôl hanesyddol a chyfoes y llais Cristnogol cyhoeddus yng Nghymru.

Byddwn yn croesawu’r Athro Densil Morgan, a fydd yn rhannu peth o hanes Gomer, a Jonathan Thomas, a fydd yn sôn am rôl gyfoes y llais Cristnogol heddi, o’i brofiad fel cynhyrchydd a gohebydd gyda Radio’r BBC.

Croeso i chi ymuno â ni ar-lein nos Fawrth, 20 Ionawr, am 7yh

Mwy o fanylion ar wefan Undeb Bedyddwyr Cymru: 👉 ubc.cymru

CAFC RWAS

## Sioe Frenhinol Cymru, Llanelwedd, 20–23 Gorffennaf 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 12.30 o’r gloch bnawn Mawrth, 3 Mawrth 2026, yng Nghanolfan y CCRW ar Faes y Sioe yn Llanelwedd**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod y sioe eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer y sioe, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i’r stondin. Cynhelir y sioe yn ôl yr arfer yn Llanelwedd, ar gyrion Llanfair ym Muallt, rhwng 20 a 23 Gorffennaf, a bydd gan yr enwadau stondin/uned yno (uned rhif D-413) i groesawu pobl o bob oed.

Fe’ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a’r gegin. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu’r neges hon mor eang â phosib â’ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb. Byddwn yn darparu te a choffi; dewch â’ch cinio gyda chi wrth i ni ddechrau ar ein trafodaethau.

Am fanylion, pellach cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com




## Eisteddfod yr Urdd Ynys Môn, Cae Sioe Môn, 23–9 Mai 2026: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul **am 7 o’r gloch nos Lun, 2 Mawrth 2026, yng Nghapel Lôn y Felin, Llangefni** (ynghanol y dref, wrth ymyl siop Iceland a maes parcio mawr canol y dref), i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd ym Môn eleni. Edrychwn ymlaen at ddechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, a gynhelir rhwng 23 a 29 Mai ar Gae Sioe Môn, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno. **Noder y newid yn y trefniadau eleni: bydd yr Eisteddfod yn dechrau ar fore Sadwrn ac yn cael ei chynnal am saith diwrnod tan y nos Wener ddilynol.**

Fe’ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y trefniadau. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu’r neges hon mor eang â phosib â’ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

# Craig, Blaenau – anogaeth ar ddechrau blwyddyn

Bob blwyddyn newydd dwi'n gofyn i'r Arglwydd am air neu thema i diffinio'r flwyddyn o'm blaen. Eleni, daeth y geiriau 'Trystio a Chwilio' i mi, a dwi'n teimlo her i drystio Iesu fwyfwy ar y daith yma yn ogystal â gorffwys ar ei addewidion.

Ond credaf hefyd y bydd hon yn flwyddyn i barhau i chwilio. Pam? Oherwydd bod bywydau ac eneidiau yn y fantol ac mae'r efengyl rydym yn ei chynnig mor dda: "Dw i, Mab y Dyn, wedi dod i chwilio am y rhai sydd ar goll, i'w hachub nhw" (Luc 19:10); "Dos i'r dre ar unwaith, a thyrd â'r bobl sy'n cardota ar y strydoedd i mewn yma – y tlawd, y methedig, pobl sy'n gloff ac yn ddall" (Luc 14:21); "Mae'r rhai sy'n teimlo'n dlawd ac annigonol wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd mae'r Un nefol yn teyrnasu yn eu bywydau" (Mathew 5:3).

Wnewch chi weddïo efo fi y byddwn yn dod yn lle saff i fwy a mwy o'r rhai ar y tu allan fedru dod i mewn iddo? Gweddïwn y bydd rhai sy'n teimlo'u bod wedi eu hanghofio yn dod i dderbyn gwahoddiad Iesu i ddod at ei fwrdd. Gweddïwn y bydd y tlawd a'r annigonol yn cael eu llenwi ac y bydd caethiwed ac iselder yn ffoi wrth i heddwch dod i deyrnasu yn eu bywydau. Gweddïwch y bydd llawer yn cael eu hachub o'n cymuned ac y byddan nhw'n profi normal y nefoedd, yma ar y ddaear, wrth i ni weithio a gweddïo y bydd cyfiawnder a gras yn rhedeg fel ffrydiau o ddŵr bywiol.

Fe gydiodd pennill gan Williams Pantycelyn ynof yn ddiweddar:

> Byth cofiaf mwy y lle a'r man
> Dylifodd gwin i'm henaid gwan,
> Yn ffrwd ddi-drai o'r nefoedd draw,
> Nes gwella'm briw a dofi'm braw.

Bydded i'r ffrwd ddi-drai yna lifo o'r nefoedd draw eto, nes gwella briwiau a lleddfu ofnau pobl werthfawr Bro Ffestiniog a broydd eraill Cymru.

**Ysgol Sul a chapel Craig**
Mae cymaint i'w rannu â chi, ond dyma'r pennawd: 'Mae Duw ar waith ac yn ateb gweddïau'. Wrth ddechrau cynnull pobl ynghyd ar y Suliau fe fuo yna siom a digalondid oherwydd doedd pethau ddim yn gweithio allan fel roeddwn wedi gobeithio ac gweddïo. Dysgodd Duw i mi, drwy'r strygl yma, am werth yr 'un', a'r fath fraint ydi cael caru'r rhai mae'n eu rhoi o'n blaenau. O hynny, dechreuodd eglwys egino, ac un o'r pethau ddaeth allan o hyn oedd "o Flaenau ac i Flaenau".




Fe gawson ni ein gorfodi i edrych eto ar sut roedden ni'n 'gwneud capel', a sylweddoli ein bod wedi plannu rhywbeth cyfarwydd i ni ond estron i'r Blaenau. Felly, dyma ni'n dechrau symleiddio popeth tra oedden ni'n fach mewn niferoedd. Dechreuom ni gyfarfod o amgylch bwrdd yn y stafell gaffi, yn hytrach na'r neuadd fawr. Ac o'r funud wnaethon ni hynny, fe wnaeth y ffurfioldeb ddiflannu, ac fe dyfodd rhywbeth naturiol ac organig — rhywbeth oedd yn teimlo fel y Blaenau.

Wrth i'r Arglwydd gyfarfod pobl a theuluoedd yn eu cartrefi a'u denu nhw i mewn, rydyn ni bellach wedi tyfu'n rhy fawr i gyfarfod o amgylch y bwrdd yn y stafell gaffi. Ond mae'r bwrdd wedi dod efo ni 'nôl i mewn i'r neuadd oherwydd ei fod yn symbol o'r hyn ydyn ni. Nid gwasanaeth yw Capel Craig, ond teulu – teulu amrywiol ac amherffaith, ac o amgylch bwrdd Iesu mae lle i bawb.

Oherwydd bod ein tîm wedi cynyddu, rydym wedi medru uno cyfarfod Capel Craig a gwaith yr ysgol Sul. Ac mae wedi bod mor braf gweld y cenedlaethau gwahanol yn cymysgu. Yn wir, ar ddechrau ein cyfarfodydd, mae'r stafell mae pawb yn dod i mewn iddi yn llawn bywyd!! Dwi'n caru'r ffaith fod ein plant ni – a dyma yw stori plant teuluoedd eraill hefyd – yn deffro ac yn llawn cyffro o glywed ei bod hi'n fore Sul arall!

Wnewch chi weddïo dros deuluoedd yr ysgol Sul sy'n dod yn ffyddlon, ond ar hyn o bryd yn parhau i fynnu eu bod yn dod oherwydd eu plant ac nid oherwydd eu hunain? Diolchwn i Dduw amdanynt a dwi'n bersonol yn caru'r ffordd maen nhw'n cymryd perchnogaeth o Gapel Craig a pha mor ffyddlon ydyn nhw! Mae wir yn achos o 'belonging before believing' efo nhw. Gweddïwn y bydd hynny'n newid wrth i Iesu eu cyfarfod mewn ffordd rymus a real.

Wnewch chi weddïo dros y Cristnogion ifanc yn ein plith hefyd? Mae'r frwydr ysbrydol yn real, ac mae 'dod yn Gristion' yn beth mor estron yn y gymuned yma. Mae rhai ohonynt wedi cael amser caled oherwydd eu ffydd newydd yn Iesu. Mae eraill wedi'i gweld hi'n anodd dod yn rhydd o gaethiwed, ac eraill wedi profi heriau personol anferthol. Gweddïwch ar i Dduw eu gwarchod ac y bydd eu ffydd ynddo'n mynd o nerth i nerth. Mae'r heriau'n real ond mae ein Duw ni yn fwy! A pharhewch i weddïo y byddwn ni'n wir deulu iddyn nhw – yn gofalu, yn gefn ac yn rhannu'n hael lle medrwn fel na fydd neb mewn angen nac yn teimlo'n unig yn y frwydr.

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Craig, Blaenau – anogaeth ar ddechrau blwyddyn*

*(parhad o dudalen 3)*

Diolchwch i Dduw ein bod yn parhau i fedru gwasanaethu ein cymuned drwy gynnal CIC a Craig Bach bob wythnos. Dydi'r momentwm ddim wedi stopio efo'r grwpiau yma, a chawsom ein hannog yn ddiweddar wrth dderbyn dau grant anhygoel o hael gan yr heddlu, oedd eisiau cydnabod a chefnogi ein gwaith ymysg pobl ifanc y fro.

Un datblygiad cyffrous arall yw fod gennym ddau grŵp ganol wythnos – grŵp dynion a merched Craig sy'n cyfarfod bob yn ail wythnos. Plis, wnewch chi weddïo dros y grwpiau yma? Rydym ar ganol mynd drwy gwrs Alffa ynddyn nhw, gan roi cyfle i'r rhai sy'n dal i chwilio i holi eu cwestiynau ac archwilio'r ffydd mewn rhywle saff. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cristnogion ifanc yn ein plith i ddechrau gosod sylfeini gan eu bod heb unrhyw gefndir Cristnogol/Beiblaidd blaenorol.

Dydi hyn ddim yn golygu bod popeth wedi bod yn hawdd ers i mi rannu ddiwethaf. Mae yna Suliau caled, dwi'n dal i ymateb ar adegau fel pe na bawn i'n trystio yn Nuw a chredu mai ei waith Ef ydyw hyn. Ac mae cerdded efo pobl mewn amgylchiadau anodd yn flêr a digalon iawn ar adegau. Ond yn y blerwch mae Duw ar waith; mae'n chwilio ac yn dod o hyd i'r colledig ac yn eu hachub.

*Joseff Edwards*
*Blaenau Ffestiniog*
*(O'r llythyr gweddi diweddar. Mae Joseff a Lydia Edwards yn cael eu cefnogi gan EBC i blannu gwaith newydd yn ardal Blaenau Ffestiniog.)*

# Newyddion Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar 18 Tachwedd yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd. Yn ystod y bore urddwyd ein Llywydd newydd, y Parchedig Dyfrig Rees, gan i'r Cyn-lywydd, y Parchedig Jill-Hailey Harries, ofyn am ei rhyddhau o'r dyletswyddau.

Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd gwasanaeth byr dan arweiniad y Trysorydd, y Parchedig Martin Spain, a than Lywyddiaeth Rheinallt Thomas i arwisgo a sefydlu'r Parchedig Dyfrig Rees yn Llywydd Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru. Ar ôl y weddi sefydlu, arwisgwyd ef â gwisg, sgarff a medal. Diolchodd yntau i Rheinallt Thomas am ei eiriau caredig wrth ei gyflwyno ac i'r aelodau am roi eu hymddiriedaeth ynddo fel Llywydd y Cyngor. Dywedodd mai prin iawn ydy'r bobl yn yr oes hon sy'n fodlon gwirfoddoli a derbyn cyfrifoldeb ffurfiol, a'i bod yn un o broblemau ein hoes. Nododd ei bod hi mor bwysig ein bod yn parchu ein gilydd a chlywed neges tystiolaeth Duw. Mae Ei ras ar waith yn ein heglwysi.

Yna, cadeiriodd Dyfrig, y Llywydd newydd, y cyfarfod weddill y bore. Esboniodd ei fod wedi cynrychioli'r Cyngor mewn sawl cyfarfod, gan gynnwys gorseddu Archesgob Cymru, y Gwir Barchedig Cherry Vann. Cawsai hefyd wahoddiad i Gynhadledd Ddiwinyddol Porvoo ddiwedd Hydref oedd yn cael ei chynnal ar ran yr Eglwys yng Nghymru yng Nghaerdydd.

Croesawyd Dr Eryl Wynn Davies i'w gyfarfod cyntaf, a chafwyd adroddiad ganddo ar hyfforddiant a'r datblygiadau sydd ar y gweill o ran yr Is-bwyllgor Hyfforddiant Cydenwadol a'r llall yn Adran Ymgeiswyr a Hyfforddiant Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Adroddodd Dr Cynan Llwyd ar waith Cytûn a'i fod yn gyfnod o wrando ac ymweld a holi i ble mae Duw am eu harwain. Mae'r mudiad yn ecwmenaidd, a nododd dair prif flaenoriaeth ar gyfer ecwmeniaeth yng Nghymru heddiw: a) ecwmeniaeth ymhlith arweinwyr cenedlaethol; b) ecwmeniaeth ym mywyd cyhoeddus Cymru; c) ecwmeniaeth ar lawr gwlad.

Cytunodd Cynan i ddilyn yr awgrym o gyhoeddi datganiad cydenwadol rhwng yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys yng Nghymru a Chyngor yr Eglwysi Rhyddion adeg y Nadolig i ddangos y cydweithio sydd rhwng yr enwadau.

Derbyniwyd adroddiad y Trysorydd. Ni chyflwynwyd adroddiad addysg, ond cafwyd adroddiadau gan yr holl enwadau gan gyfeirio at eu cyfarfodydd blynyddol amrywiol.



Helen Jones, Dyfrig Rees a Rheinallt Thomas

Terfynwyd y cyfarfod gyda'r Llywydd yn cyhoeddi'r gras. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor ar 13 Mai 2026 yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, gyda gwasanaeth hybrid Zoom yn cael ei gynnig.

## Gair o Gydymdeimlad



Gyda thristwch y clywsom am farwolaeth Andrew Rogers yn ddiweddar, yn dilyn damwain angheuol yn ardal Llanddarog, ger Caerfyrddin. Ar y pryd roedd Andrew yn gwirfoddoli gyda gwasanaeth Beiciau Gwaed Cymru ar ei foto-beic pan gafodd ei daro gan gerbyd.

Roedd Andrew yn aelod ac yn gyn-ysgrifennydd yn eglwys y Bedyddwyr, Bethlehem, Spittal, ac yn hynod weithgar yno. Estynnwn ein cydymdeimlad i Tricia, ei briod, a'r teulu oll yn eu hiraeth a'u galar. Mae Tricia hefyd yn gyn-lywydd cenedlaethol y Senana yng Nghymru.

Ffermwr oedd Andrew wrth ei alwedigaeth, ac ymfalchïai yn ei yrr o wartheg Salers. Am flynyddoedd bu'n gwirfoddoli fel bugail y stryd yn ystod wythnos y Sioe Fawr yn Llanelwedd, a diolchwn am ei ymroddiad i'r gwaith pwysig hwnnw hefyd.

# O'r byd a'r betws

## Edrych dros y gorwel

Ynghanol bwrlwm Ionawr, bydd eglwysi'n ailgydio yn rhaglen y gaeaf, gydag amrywiaeth o weithgareddau yn ôl y drefn. Bydd rhai'n cynnal cyfarfodydd gweddi dechrau'r flwyddyn, cyrddau defosiynol eu dosbarthiadau Beiblaidd, cyfarfodydd mwy cymdeithasol eu naws, beth bynnag yr enwau a roddir iddynt. Ar draws Cymru bellach bydd gwasanaethau plygain, a da gweld eu bod yn cael eu cynnal mewn lleoliadau newydd a gwahanol. Eto, mae arnom angen edrych dros y gorwel a gweld Crist ym mhob eglwys ac enwad.

Tybed sawl ardal fydd yn rhoi sylw i'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol. Mae'r deunyddiau'n cael eu paratoi bob blwyddyn gan grwpiau sy'n cynrychioli Eglwysi Gwledydd Prydain a bydd y dolenni ar gael ar wefannau'r cyrff Cristnogol yng Nghymru, neu gellir eu lawrlwytho am ddim o wefan CTBI. Mae'r myfyrdodau eleni'n defnyddio'r adnod 'Un corff sydd, ac un Ysbryd, yn union fel mai un yw'r gobaith sy'n ymhlyg yn eich galwad'.

Gwyddom fod llawer o eglwysi wedi dwyn yr achos i ben ar draws Cymru yn ystod y blynyddoedd diweddar, ac mae'r swyddogion enwadol wrthi'n cynnig adnoddau a chefnogaeth i'r eglwysi sydd ymhlith y gweddill ffyddlon. Clywsom sawl un yn defnyddio'r cymal sy'n sôn am 'gadw'r drws ar agor', hyd yn oed os yw'n ddim ond un oedfa neu wasanaeth yr wythnos. Diolchwn i'r cyfeillion hyn am eu dyfalbarhad yn lleol. Bydd llawer yn cymysgu rhwng y geiriau 'capel', sy'n golygu adeilad, ac 'eglwys' sy'n sôn am y gynulleidfa neu deulu'r ffydd. Mae defnyddioldeb sawl adeilad wedi dod i ben, a bu'r golofn hon ac eraill yn llawenhau bod y gynulleidfa'n casglu'r gweddillion o'r eglwysi sydd wedi gorfod gwaredu'r adeilad ac yn chwilio am ffyrdd gwahanol i drefnu gwasanaethau o addoliad. Nid gwarcheidwaid adeiladau mohonom, ond tystion i wahoddiad Iesu i gredu ac i waith cenhadol ac addolgar yr Ysbryd Glân.

Mewn oes pan fydd y lliaws yn defnyddio'u ffonau symudol, mae'r teclynnau sy'n cysylltu pawb ynghyd mewn gwirionedd yn achosi i'r defnyddwyr syllu ar y sgrin fach ond heb siarad â phobl eraill – y teclyn cymdeithasol anghymdeithasol. Aeth eglwysi i feddwl nad oes angen cyfarfod ag eraill, a bod eglwys leol yn bodoli ar wahân i deulu'r ffydd. Faint o eglwysi a gaeodd eu drysau heb gadw cyswllt â rhwydwaith y ffydd? Prif neges yr Wythnos Weddi yw helpu eglwysi i werthfawrogi bod ein gobaith yn ein cydymwneud ac mai'r Ysbryd Glân sydd yn ein dal ynghyd.

Mae'n braf dathlu mai un corff yw Eglwys Iesu, ac er bod yna gorlannau gwahanol eu natur a'u modd o addoli, rydym oll yn un. Cynhelir yr wythnos Weddi er Undeb Cristnogol rhwng y 18fed a'r 25ain o Ionawr, ond mewn gwirionedd gellir ei threfnu unrhyw bryd. Apeliaf ar swyddog gohebol pob eglwys sy'n derbyn *Cenn@d* a phob papur enwadol arall i ofyn am gopïau digidol o'r adnoddau hyn a defnyddio rhan ohonynt. Os nad oes person ar gael i arwain oedfa wedi ei threfnu gennych yn chwarter cyntaf 2026, defnyddiwch ran o'r gwasanaeth a luniwyd sy'n gydnaws â'ch cynulleidfa, ac yn ddelfrydol gofynnwch i'r enwadau eraill yn eich hardal i gydberchnogi'r gwasanaeth. Nid ydym wedi ein galw i fod yn gaeth ein cymdeithas ond yn aelodau o deulu Iesu ac yn addolwyr yr Arglwydd.

Un peth yw edrych dros orwelion enwadol, ond cawn wahoddiad i edrych dros ffiniau'r cenhedloedd a gweld un byd a dynoliaeth gyflawn. Ym mis Chwefror ceir darpariaeth debyg i adnoddau'r Wythnos Weddi, ond gyda phwyslais ehangach. Datblygwyd yr adnoddau ar y cyd yn enw CTBI (a chyfaddefaf i mi fod â rhan yn y paratoi eleni, fel y llynedd). Gweithgor sy'n cadw llygad ar gyfiawnder hiliol sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth, ac mae llawer o adnoddau amrywiol eu natur ond hylaw i'w ddefnyddio.

Mae thema 2026 eto'n pwysleisio'r perthyn ynghyd, pa wlad bynnag y byddwn yn byw ynddi neu beth bynnag yw lliw ein croen neu iaith ein cyfathrebu. Canol mis Chwefror yw'r amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y gwasanaeth, ond bydd pob rhyddid i'r eglwysi lleol eu defnyddio pan fydd hynny'n hwylus iddynt. Fel gyda deunydd yr Wythnos Weddi, bydd adnoddau'r Wythnos Cyfiawnder Hiliol ar gael yn y Gymraeg hefyd.

Mae llawer o wledydd y byd yn poeni sut y gallant fforddio masnachu ym myd Donald Trump. Geilw ei hun yn 'deal breaker', ond nid 'taro bargen' a wna, ond gorfodi economïau'r byd i ddibynnu ar ei rym a'i rethreg. Rhan o bwyslais yr wythnos, sy'n gweddïo am gyfiawnder hiliol yn y byd, yw meithrin parch a pherthynas iach rhwng y cenhedloedd a'i gilydd.

Yn ystod y chwe mis nesaf, byddwn wedi clywed llawer am wleidyddiaeth boblogaidd gyda phlaid Reform yn mynnu sylw. Mae'n bwysig fod yr eglwysi ym mhob gwlad, ac yng Nghymru hefyd, yn tynnu sylw at bwysigrwydd cyfiawnder a chymod, yn meithrin tegwch a chariad brawdol, yn codi llais dros y ffoadur a'r gwan, gan dderbyn bod hynny'n rhannu cyfoeth a chyfle i bawb, beth bynnag eu cenedl a'u crefydd. Mae'n bwysig i bob eglwys ddarllen a defnyddio'r adnoddau hyn. Ceisiwn osgoi'r perygl i'n gweddïau aros yn ein cymdogaethau, a gweld y tu hwnt i ffiniau'r eglwys ar waith yn lleol ac yn genedlaethol, gan graffu ar Dduw sy'n cofleidio'r holl fyd â'i gariad anfeidrol. Amdani!

*Denzil I. John*

## Ar ddechrau blwyddyn


Gofynnwyd i mi ar ddydd olaf y flwyddyn, 'Ydych chi barod ar gyfer y flwyddyn newydd'? Mentrais ateb drwy ddweud:

> Daeth dwy fil dau ddeg a chwech
> yn rhodd i bawb o'r saint;
> diolch wnawn am weld y dydd
> a phrofi y fath fraint!

*Iorwerth P. Jones*
*Rhuthun*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




## Codi'r Llen 12 – Ymson Rachel

Ro'n i'n gwylio'r praidd fel yr oeddwn wedi'i wneud droeon o'r blaen. Arhosai'r defaid yn agos ataf, yn chwilio am gynhesrwydd. Roedd y garreg dros geg y pydew yn dal yn ei lle, yn disgwyl i ni i gyd i fod yno cyn cael ei symud.

Gwelais ddieithryn o fy mlaen, yn siarad â'r bugeiliaid eraill. Trodd y dieithryn a chodi ei olygon. Newidiodd rhywbeth yn ei osgo ac fe deimlais wefr yn symud drwy fy nghorff. Digwyddodd rhywbeth rhyngom, yr eiliad honno, er nad oeddem wedi dweud yr un gair wrth ein gilydd eto.

Heb ddweud dim, aeth at garreg y pydew a dechrau ei symud. Fedrwn i ddim credu'r hyn ro'n i'n ei weld! Fel arfer, byddai'r bugeiliaid i gyd yn dod at ei gilydd i symud y garreg; roedd hi mor drwm fel bod angen bôn braich pob un ohonynt. Ond dyma hwn yn dechrau ei symud ar ei ben ei hun! Llanwodd fy nghalon ag edmygedd.

Wedi iddo'i symud heb unrhyw help, cymerodd ei amser i roi dŵr i'r defaid. Roedd y munudau hynny'n teimlo fel rhai hir iawn. Ac yna, yn sydyn, roedd wrth f'ymyl. Daeth yn agos ataf, mor agos fel fy mod yn gallu teimlo'i anadl ar fy wyneb. Ac yna fe wnaeth fy nghusanu! Fe ges i fraw, nid oherwydd y gusan, ond oherwydd iddo wylo! Do'n i ddim yn disgwyl gweld emosiwn fel hyn, yn enwedig mewn dyn cryf. Yna dywedodd ei fod yn nai i 'nhad; roedd o'n perthyn i mi, yn un ohonom ni!

Rhedais adre i ddweud wrth fy nhad. Ychydig a wyddwn am y stori gymhleth oedd ar fin dechrau. Fi oedd y ferch ieuengaf, yr harddaf, yr un siapus. Roedd gan fy chwaer hynaf, Lea, ruddin cymeriad. Doedd hi ddim mor brydferth, ond roedd pobl yn ei pharchu. Ro'n i'n ei charu ond gwyddai'r ddwy ohonom am y gystadleuaeth oedd yn bodoli rhyngom.

Roedd Jacob wedi syrthio mewn cariad â mi. Gwnaeth fy nhad iddo weithio am saith mlynedd cyn iddo gael fy mhriodi. Aeth y blynyddoedd heibio fel eiliadau oherwydd ei gariad tuag ataf. Ro'n i'n hapus ac yn gwybod y byddai'r aros amdano'n cael ei wobrwyo. Yn anffodus, mae gan sicrwydd ffordd ryfedd o newid i fod yn ansicrwydd. Ar noson yr uno, nid fi gafodd fynd i wely Jacob. Dwi'n dal i deimlo'r siom o gael fy mradychu gan fy nheulu fy hun. Lea oedd y ferch hynaf a chredai fy nhad, fel pawb arall, mai hi ddylai gael priodi yn gyntaf.

Ro'n i'n dal i'w garu ac roedd e'n dal yn dyheu amdanaf fi. Arhosodd amdanaf a gweithio am saith mlynedd arall er fy mwyn! Fe ges i fod yn wraig iddo; do, ond yr ail wraig. Roedd yn rhaid ei rannu. Esgorodd Lea ar blant; allwn i ddim cenhedlu. Ymbiliais yn daer ar Dduw i roi plant imi. Wylais o flaen Jacob a dweud bod pethau ar ben arnaf! Ro'n i'n llawn eiddigedd ac wedi dysgu nad yw cariad yn lleddfu dyhead, ond yn hytrach yn rhoi min ar y dyheu!

Ond arhosais. Er fy mod eisiau dod â 'mywyd i ben, teimlais ym mêr fy esgyrn fod Duw am imi ymdopi. Rwy'n gwybod erbyn hyn nid yn unig fod fy stori i'n ymwneud â phrydferthwch a chwympo mewn cariad, ond hefyd yn ymwneud ag amynedd a gobaith. Mae gobaith weithiau wedi'i daenu'n haen denau drosom, ond rhuddin i ddal arno ydyw. Daliais yn dynn; daliwch chwithau hefyd!

**Holi**

- Sut mae stori Rachel yn herio'r syniad bod ffafr Duw bob amser yn ymddangos fel bendith neu gyflawniad uniongyrchol ar unwaith?
- Ym mha ffordd mae systemau ei hoes yn siapio dioddefaint Rachel? Ydi Duw yn dal i weithio o fewn yr amgylchiadau hynny? Oes esiamplau o hyn yn digwydd yn ein hoes ni?
- Sut mae cael ei chymharu â'i chwaer yn effeithio ar Rachel? Mae cymharu yn broblem fawr yn gymdeithasol heddiw; beth allwn ni ei wneud i ystwytho'r broblem ynom ein hunain ac i helpu eraill?
- Mae Rachel, yn ei gwewyr, yn methu gweld y ffordd ymlaen. Beth mae'r ymbil enbyd hwn (gweler Genesis 30:1) yn ei ddweud am ddyfalbarhad yn wyneb anobaith? Wyddoch chi am rhywun sydd angen teimlo bod Duw yno drwy'r anobeithio?

**Gweddi**

Er inni gael ein siomi, rwyt Ti yno.
Er inni brofi beth yw anobeithio, rwyt Ti yno.
Er inni fethu gweld y ffordd ymlaen, rwyt Ti yno.
Er inni ddyheu a methu gwireddu ein breuddwyd, rwyt Ti yno.
Er inni gael ein bradychu, rwyt Ti yno.
Er inni wneud y pethau hyn i bobl eraill, rwyt Ti yno. Amen.

*Siân Meinir*

S4C

***S4C Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 18 Ionawr, am 7:30yh – *Hoff Adnodau'r Cymry***
Bydd Nia Roberts yn cyflwyno detholiad o hoff adnodau yng nghwmni Cleif Harpwood, Rachael Garside ac Elin Maher – tri o'r cyfranwyr i'r gyfrol *Hoff Adnodau'r Cymry*. Daw'r canu mawl o gymanfa gyhoeddi Eisteddfod y Garreg Las 2026 yng Nghapel y Bedyddwyr, Blaen-ffos, dan arweiniad Sioned Page Jones, a chawn berfformiad gan Fechgyn Bro Taf.


BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 18 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Carys Davies

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 18 Ionawr, am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad Emma Roberts, Abertawe

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt

## *Wake Up Dead Man!*



Mae wedi dod yn draddodiad Nadoligaidd i ni wylio'r ffilmiau *Knives Out* fel teulu bob tro bydd un newydd yn ymddangos. Felly, wrth i ni baratoi'r popcorn a thrio cofio'r cyfrinair Netflix, roeddwn i'n edrych ymlaen at noson heddychlon heb ormod o her ddeallusol, hoe o'r gwaith o fod yn weinidog ac efallai hyd yn oed gyfle i gael *snooze* fach ar y soffa. Roeddwn i wedi mwynhau'r ddwy ffilm flaenorol: *Knives Out* a *Glass Onion.* Mae pob ffilm yn y gyfres wedi'i henwi ar ôl cân gan fand roc, ac mae'r drydedd yn dilyn yr un rheol: *Wake Up Dead Man* gan U2.

Efallai y dylai'r ffaith fod y cynhyrchydd wedi dewis cân gan U2 fel teitl fod wedi rhoi cliw i fi beth i'w ddisgwyl. Achos, yn syth ar ôl i'r ffilm ddechrau, daeth hi'n amlwg taw ffilm am weinidogion yr efengyl oedd hi. Dydw i ddim yn hoffi ffilmiau am weinidogion o gwbl! Prin iawn yw'r rhai sy'n dangos dealltwriaeth go iawn o'r alwad a'r gwaith. Ond mae'r ffilm hon yn wahanol. Yn arwynebol, stori o lofruddiaeth 'ystafell-dan-glo' yw hon, tebyg i *Hollow Man* gan John Dickson Carr, ac mae'r ffilm ei hun yn cyfeirio at y nofel hon. Mae'n bosibl ei mwynhau ar y lefel honno. Ond mae'r ffilm hefyd yn adrodd y berthynas rhwng dau weinidog hollol wahanol. Jud Duplenticity yw'r offeiriad ifanc oedd wedi bod yn focsiwr ac wedi lladd rhywun. Anfonir Jud i gynorthwyo gweinidog hŷn, Monsignor Jefferson Wicks, mewn plwyf yng nghefn gwlad, ac yn fuan ar ôl dyfodiad Jud, mae llofruddiaeth amhosibl yn digwydd.

Mae cymaint yn y ffilm i'r rhai sydd â llygaid i'w weld! Mae'r stori'n troi o gwmpas dyn sy'n marw ac wedyn yn dod yn ôl yn fyw – a Martha yw enw ei chwaer yn y ffydd. Mae'r ddau weinidog yn cynrychioli dau fath o Gristnogaeth sydd ar gael i bobl yn yr Unol Daleithiau, ac yn fwyfwy i ni yng Nghymru hefyd. Mae Monsignor Wicks yn cynrychioli Cristnogaeth gyhyrog, Cristnogaeth ryfelgar Crist yn erbyn y byd; mae'r byd yn bygwth yr eglwys, ac mae'r diben yn cyfiawnhau'r modd pan mae'n dod at achub Cristnogaeth rhag ei gelynion. Gweinidog cadarn ei ddylanwad yw Wicks, ac mae ei braidd yn ei ofni. Mae'n falch pan fydd pobl yn gadael yr eglwys oherwydd tân a brwmstan ei bregethu; dydyn nhw ddim yn gallu cyrraedd y safon uchel y mae'n ei disgwyl o'i gynulleidfa.

Gweinidog hollol wahanol yw Jud, dyn sydd wedi profi gwarth, methiant ac edifeirwch go iawn. Oherwydd ei fethiant mae'n gallu cydymdeimlo â methiannau pobl eraill, ac mae'n cymryd gorchymyn Iesu i garu a maddau i'n gelynion yn llythrennol. Mewn cyferbyniad eglur â Christnogaeth ryfelgar Wicks, mae Cristnogaeth Jud yn edrych yn wan a di-rym. Ond yn y diwedd, heb roi gormod o *spoilers*, bydd cariad bugeiliol a graslon Jud yn ennill y dydd. Mewn ffordd ...

Mae'r ffilm hon yn estyn dau wahoddiad i'r gynulleidfa. Yr un cyntaf yw'r gwahoddiad arferol mewn ffilm o'r *genre* hwn – beth digwyddodd a phwy oedd yn gyfrifol am y trosedd? Ond mae ail wahoddiad hefyd: gwahoddiad i feddwl am beth mae'n ei olygu i fod yn Gristion, ac yn arbennig i fod yn weinidog yr efengyl. Un o brif gymeriadau'r ffilm yw'r detectif Benoit Blanc, anffyddiwr sy'n dechrau'r ffilm gan sarhau popeth Cristnogol – ac yn gorffen y ffilm yn dweud pethau tebyg. Ond, yn y canol, mae'n cael ei effeithio'n fawr iawn gan ffydd yr offeiriad ifanc. Mae'n debyg taw profiad y cynhyrchydd Rian Johnson yw profiad Benoit Blanc. Wedi ei fagu mewn teulu Cristnogol yn Denver, mae Johnson yn dweud,

> 'I was very deeply, personally Christian ... My relationship with Christ was the lens I frame the world through, through my childhood, my teenage years, into my early 20s ... [Today] I don't know if I classify myself as atheist. I would say I'm just nonreligious. I'm not a Christian anymore ... They [Jud a Blanc] both very much represent sort of a cloud of very real experiences that I had growing up in the church. I had, growing up in the church, the side of Jud, which is … Christ-like love, it's love your enemy ... On the Wicks side, there was the element of us against them … We're under attack. We have to build the walls. We're at war. This is spiritual warfare. I have both of them inside me.'

Ewch i weld y ffilm yma a'i thrafod gyda ffrindiau a theulu – mae'n ffordd hyfryd i ddechrau sgwrs am bethau pwysig.




## Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, ger Aberteifi, 1–8 Awst 2026: Pabell yr Eglwysi

Cynhelir cyfarfod dan nawdd Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru **am 7 o'r gloch nos Iau, 5 Mawrth, yng Nghapel Mair, Aberteifi**, i drafod tystiolaeth a chenhadaeth yr eglwysi dros gyfnod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Bydd yn braf dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, wrth i ni baratoi i groesawu ymwelwyr i'r stondin. Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar gyrion tref Aberteifi, a hynny rhwng 1 a 8 Awst, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno i groesawu pobl o bob oed.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema a pha weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd y maes rai milltiroedd i'r de o Aberteifi, a bydd gennym ninnau ein gofod arferol o ddeg uned. Bydd angen gwirfoddolwyr ar y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau, yn ogystal â rota helaeth o bobl i fod yn gyfrifol am y te a'r gegin. Byddwn hefyd yn trafod trefniadau'r oedfa ar fore Sul agoriadol yr eisteddfod. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol, os gwelwch yn dda. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies: 07894580192 neu aled@ysgolsul.com

# Taith bersonol Aled Robert Thomas at ffydd: o draddodiad teuluol i ymrwymiad personol



Er bod llawer o bobl ifanc yn ymdrechu i ddod o hyd i'w lle mewn byd sy'n newid yn gyflym, mae rhai yn troi at ffydd Gristnogol fel ffynhonnell o ystyr, sefydlogrwydd a gobaith.

Un ohonynt yw Aled Robert Thomas, sy'n byw ym Mhenarth, Bro Morgannwg, ac a gafodd ei fedyddio ym mis Medi 2024 ar ôl cyfnod o archwilio'i ffydd mewn ffordd fwy personol ac ymwybodol.

Er iddo gael ei fagu mewn teulu Cristnogol, dywed Aled nad oedd ei berthynas â ffydd bob amser yn ganolog i'w fywyd. "Roedd ffydd wastad yno fel rhan o'n teulu," meddai. "Roedd fy rhieni'n Gristnogion, ac roedd traddodiad bedyddio yn y teulu, ond am flynyddoedd roedd fy ffydd i braidd yn y cefndir — rhywbeth oedd yn bresennol, ond heb gael ei gwestiynu na'i fyw'n llawn."

Dros amser, dechreuodd Aled deimlo'r angen i archwilio'r ffydd honno drosto'i hun — nid fel rhywbeth a etifeddwyd yn unig, ond fel dewis personol a chydwybodol. "Roedd yna gyfnod lle dechreuais ofyn cwestiynau dyfnach — am bwrpas, am wirionedd, ac am beth mae'n ei olygu i fyw bywyd gonest a llawn."

Cafodd y daith hon ei siapio'n rhannol gan ei gefndir personol. Ganwyd Aled yn Ysbyty Llandochau yn Ne Morgannwg, a threuliodd ran o'i blentyndod cynnar yng Nghaerdydd cyn i'r teulu symud i Aberteifi. Yno, mynychodd Ysgol y Plant Bach, Aberteifi, ac ar y Sul Gapel Degwel yn Llandudoch. Er ei fod yn rhy ifanc i gofio llawer o'i brofiadau cynnar yng Nghapel y Tabernacl yng Nghaerdydd, mae ganddo atgofion clir o fynychu Ysgol Sul Gymreig, ac o brofi'r modd y gall capel fod yn ganolbwynt i fywyd cymunedol. Yn ystod taith Ysgol Sul i ardal Machynlleth, cafodd y profiad o chwarae'r organ am y tro cyntaf yn Eglwys Pennal — profiad a adawodd argraff ddyfnach nag a sylweddolodd ar y pryd.

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, daeth cerddoriaeth yn elfen ganolog yn ei fywyd. Dechreuodd ei ddiddordeb yn y piano'n ifanc iawn, gyda chefnogaeth gadarn gan ei rieni, a pharhaodd hynny wedi i'r teulu symud i Benarth yn 2001. Yno, derbyniodd hyfforddiant pellach yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, gan ennill Anrhydedd yn ei arholiad Gradd 8 ar y piano yn 2010. Yn 2011, perfformiwyd ei gyfansoddiad cerddorfaol, Taith yr Eos, gan Gerddorfa Thornbury — profiad sy'n parhau i fod yn un o uchafbwyntiau ei fywyd. Ond y tu hwnt i berfformio, bu'r piano hefyd yn ffordd o fyfyrio ac o gael llonyddwch mewn cyfnodau anodd.

Fel rhan o'i archwiliad ysbrydol fel oedolyn, penderfynodd Aled ymuno â chapel y Tabernacl yng Nghaerdydd, lle cafodd groeso cynnes a lle dechreuodd brofi ymdeimlad cryf o gymuned. "Roedd rhywbeth yn y tawelwch, y gweddïo a'r addoli ar y Sul oedd yn teimlo'n wir iawn," meddai. "Doedd e ddim am berfformio na gorfodaeth — ond am wrando, bod yn bresennol, a cheisio byw'n well."

Ers iddo ymuno â'r capel, mae Aled wedi dod yn rhan weithgar o fywyd yr oedfa. Mae'n aml yn darllen y Beibl o'r pulpud ac yn gwneud cyfraniadau cerddorol ar y piano yn ystod gwasanaethau, gan ddefnyddio cerddoriaeth fel ffordd o fyfyrio ac o wasanaethu'r gynulleidfa.

Mae addoli drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd yn ganolog i'w brofiad o ffydd. Fel siaradwr Cymraeg o'r crud, dywed Aled fod addoli yn ei famiaith yn ei alluogi i ymateb yn fwy dwys ac yn fwy gonest. "Y Gymraeg yw iaith fy nghalon," meddai. "Mae gweddïo ac addoli yn y Gymraeg yn teimlo'n naturiol i mi — mae'n fy helpu i fynegi fy ffydd mewn ffordd sy'n gydnaws â phwy ydw i."

Mae'r cysylltiad â'r Tabernacl hefyd yn un teuluol dwfn. Bu mam-gu Aled, Mrs Virginia Thomas a fu farw yn 2025, yn aelod ffyddlon o'r capel ers yr 1960au. Am ddegawdau, bu'n rhan weithgar o fywyd y Tabernacl — yn mynychu'r boreau coffi ar ddydd Sadwrn ac yn helpu i'w trefnu — gan gyfrannu'n dawel ond yn gyson at y gymuned.

Wrth edrych yn ôl, dywed Aled fod y cysylltiad hwnnw'n rhoi cyd-destun dyfnach i'w benderfyniad i ymuno â'r capel. "Mae'n teimlo fel parhad o rywbeth a ddechreuodd ymhell yn ôl," meddai, "nid yn ailadrodd, ond yn ymateb yn bersonol i'r un ffydd."

Wrth i'w ffydd ddyfnhau, daeth y cwestiwn o fedydd i'r amlwg. Er bod bedyddio yn rhan o hanes ei deulu, roedd Aled yn awyddus i wneud y penderfyniad hwnnw drosto'i hun. "Roeddwn i eisiau i'r bedydd fod yn ymateb i ffydd fyw, nid yn unig fel rhywbeth symbolaidd," meddai.

Ym mis Medi 2024, cafodd ei fedyddio mewn gwasanaeth a ddisgrifia fel un tawel ond dwys. "Roedd yn foment o eglurder," meddai. "Dim atebion i bopeth, ond ymrwymiad clir — i fyw bywyd sy'n ceisio adlewyrchu cariad, gostyngeiddrwydd a gonestrwydd Crist."

Wrth edrych ymlaen, mae Aled yn disgrifio'i ffydd nid fel cyrchfan, ond fel taith barhaus — un sy'n parhau i dyfu drwy fyfyrdod, cerddoriaeth, a chymuned.

Yn ôl y Parchedig Dr Rosa Hunt, gweinidog y Tabernacl, mae Aled wedi dod yn rhan werthfawr o fywyd y capel ers iddo ymuno yno. "Fel gweinidog y capel, rwy'n falch iawn i gael Aled fel aelod o gymuned y Tabernacl. Rydym yn gwerthfawrogi ei gyfraniad unigryw, a'r cwestiynau deallus mae'n eu gofyn mewn astudiaethau Beiblaidd. Mi fydda i'n edrych ymlaen at gael ei gwmni pan fyddwn ni'n mynd ar ein taith i Malta fel capel yn 2027."

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol 01745817584 / 07957510346 yn ystod oriau swyddfa

post@panel.cymru panel.cymru

neu Thirtyone:eight 0303 003 1111 (am gyngor tu allan i oriau swyddfa)

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru